

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Cydlynu Polisi'r Llywodraeth Co-ordination of Government Policy

Q11 Irene James: Will the First Minister make a statement about the co-ordination of Government policy in Wales? OAQ1131(FM)

C11 Irene James: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gydlynu polisi'r Llywodraeth yng Nghymru? OAQ1131(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): I ensure that this is addressed through Cabinet, and its sub-committees, supported by the policy co-ordination mechanisms we have put in place.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Rhoddaf sicrwydd ichi yr ymdrinnir â hyn drwy'r Cabinet a'i is-bwyllgorau, gyda chymorth y dulliau cydlynu polisi a roddwyd ar waith gennym.

Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol International Sustainable Development Framework

Q12 John Griffiths: Will the First Minister make a statement on the Assembly Government's international sustainable development framework? OAQ1115(FM)

C12 John Griffiths: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fframwaith datblygu cynaliadwy rhyngwladol Llywodraeth y Cynulliad? OAQ1115(FM)

The First Minister: In December, I launched the consultation on a draft Welsh international sustainable development framework. It will enhance Wales's ability to help deliver the UN Millennium Development Goals and ensure that the Assembly Government can improve the co-ordination of a Welsh response to international disasters and emergencies.

Y Prif Weinidog: Ym mis Rhagfyr, lansiais yr ymgynghoriad ar ddrafft fframwaith datblygu cynaliadwy rhyngwladol Cymru. Bydd yn gwella gallu Cymru i helpu i gyflwyno Nodau Datblygu Mileniwm y Cenhedloedd Unedig a sicrhau y gall Llywodraeth y Cynulliad wella'r broses o gydlynu ymateb gan Gymru i drychinebau ac achosion brys rhyngwladol.

Cyllid Ewropeaidd European Funding

C13 Alun Ffred Jones: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Gweinidogion y DU ynglŷn â chyllid Ewropeaidd? OAQ1126(FM)

Q13 Alun Ffred Jones: What recent discussions has the First Minister held with UK Ministers regarding European funding? OAQ1126(FM)

The First Minister: I had a number of

Y Prif Weinidog: Cefais nifer o

discussions on European funding with UK Government Ministers, individually and collectively at the joint ministerial committee on Europe, in the run-up to the December council meeting which agreed the next financial perspective, securing an excellent outcome for Wales.

drafodaethau ar gyllid Ewropeaidd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU, yn unigol a chyda'i gilydd, yng nghydbwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop, wrth ddynesu at gyfarfod y cyngor ym mis Rhagfyr a gytunodd ar y persbectif ariannol nesaf, gan sicrhau canlyniad gwyth i Gymru.

Astudio ac Addysgu Pynciau Gwyddonol Study and Teaching of Science Subjects

Q14 William Graham: Will the First Minister outline how Welsh Assembly Government policies promote the study and teaching of science subjects in Wales? OAQ1109(FM)

C14 William Graham: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo astudio ac addysgu pynciau gwyddonol yng Nghymru? OAQ1109(FM)

The First Minister: Science is a compulsory subject for all pupils aged 5 to 16. We have introduced an applied science GCSE to help motivate students, provided core funding for Techniquet in Cardiff and at the North East Wales Institute of Higher Education, Wrexham, and incentives for students following postgraduate mathematics and science initial teacher training courses.

Y Prif Weinidog: Mae gwyddoniaeth yn bwnc gorfodol i bob disgybl rhwng 5 ac 16 oed. Yr ydym wedi cyflwyno TGAU gwyddoniaeth gymwysedig i helpu i ysgogi myfyrwyr, darparu arian craidd i Techniquet yng Nghaerdydd ac Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam, a chymhellion i raddedigion sy'n dilyn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Targedau Ailgylchu Recycling Targets

C15 David Lloyd: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gydag awdurdodau lleol ynglŷn â thargedau ailgylchu? OAQ1123(FM)

Q15 David Lloyd: What discussions has the First Minister held with local authorities regarding recycling targets? OAQ1123(FM)

The First Minister: I had no such discussions but the Minister for Environment, Planning and Countryside regularly meets the Welsh Local Government Association, and has met individual local authorities, to discuss waste issues including recycling, which is an area where we have recently announced significant improvement in overall local authority performance.

Y Prif Weinidog: Ni chefais drafodaethau o'r fath, ond mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn cwrdd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rheolaidd, ac mae wedi cwrdd ag awdurdodau lleol unigol i drafod materion yn ymwneud â gwastraff, gan gynnwys ailgylchu, sy'n faes lle y cyhoeddwyd gwelliant sylweddol ym mherfformiad awdurdodau lleol yn gyffredinol yn ddiweddar.